



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Marchan**

**Stryd Mwrog  
Rhuthun  
LL15 1LE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

08/08/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Llys Marchan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	ClwydAlyn Housing Limited
Lleuedd cofrestredig	10
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	20 Hydref 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth a gânt yn Llys Marchan. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o staff gofal brwdfrydig sy'n awyddus i ddarparu'r cymorth gorau posibl. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion presennol y bobl yn bennaf, ond rhaid adolygu'r rhain o leiaf bob tri mis.

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Maent yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant a sesiynau goruchwylio. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r staff wedi cael hyfforddiant pellach i ddiwallu anghenion penodol y bobl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn cwblhau ei ymweliadau rheoleiddiol o leiaf bob tri mis. Adeg yr arolygiad, roedd gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo, gan gynnwys cael cyfleusterau en-suite a cheginau cymunedol newydd.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu cefnogi i gynyddu a chynnal eu hannibyniaeth. Mae'r cynlluniau personol yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn eu hyrwyddo i gymryd risgiau cadarnhaol. Mae cyfleusterau drwy'r cartref i'r bobl feithrin a chynnal sgiliau ar gyfer byw o ddydd i ddydd, megis ceginau cymunedol a chyfleusterau golchi dillad. Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch. Caiff y bobl eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol yn barhaus. Dylai'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu'n ystyrlon o leiaf bob tri mis o hyn ymlaen. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd i breswylwyr yn rhoi'r cyfle i'r bobl fynegi eu barn a'u dymuniadau am y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal o ddydd i ddydd.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'r staff gofal yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a theithiau dydd yn seiliedig ar adborth a geir yng nghyfarfodydd y preswylwyr. Gall y bobl wneud defnydd o grwpiau lleol a gweithgareddau gan gynnwys garddio, grwpiau cerdded, partiön â thema iddynt a chelf a chreffft. Pan fo angen, mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i fynychu apwyntiadau iechyd. Caiff y bobl ddewisiadau adeg prydau bwyd a gallant ofyn am ddewis gwahanol os byddant yn dymuno. Gall darparwr y gwasanaeth gefnogi'r preswylwyr Cymraeg. Mae yna staff sy'n gallu ymgysylltu'n Gymraeg ac mae dogfennaeth ar gael yn Gymraeg hefyd os mai dyna fyddai orau gan bobl.

Caiff y bobl eu cefnogi i fanteisio ar addysg, hyfforddiant a chyfleoedd hamdden. Mae'r cynlluniau personol yn disgrifio dyheadau'r bobl yn glir a'r ffordd orau o'u helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fynychu coleg, grwpiau a chyfleoedd gwirfoddoli lleol. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gallant gyfrannu at y gymuned leol.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac maent yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym fod pob aelod o'r staff yn hawdd mynd atynt. Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisi diogelu priodol ar waith, sy'n nodi'n glir sut i godi pryder a sut caiff pryderon eu hymdrin â hwy.

Mae'r llety a ddarperir yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal rhaglen adnewyddu ym mhob rhan o'r adeilad ar hyn o bryd. Mae digon o le i'r bobl gymdeithasu neu dreulio amser ar eu pen eu hunain.

## Gofal a Chymorth

Mae'r unigolion yn cael gofal a chymorth o ansawdd da. Ymgynghorir â'r bobl wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, y maent yn eu llofnodi i dystio eu bod wedi cymryd rhan. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff asesiad cyn derbyn trwyadl ei gwblhau cyn cytuno y gall yr unigolyn symud i'r cartref. Gwnaethom adolygu sampl o gynlluniau personol a chanfod eu bod yn canolbwyntio'n helaeth ar yr unigolyn. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion presennol yr unigolyn, ond nid oedd cynllun personol un unigolyn yn adlewyrchu'r drefn o reoli ei gyflwr meddygol yn gywir. Mae'r cynllun gofal wedi cael ei ddiweddarau ers yr arolygiad a bellach mae'n adlewyrchu anghenion yr unigolyn a sut i'w cefnogi. Ni chaiff bob cynllun personol ei hadolygu'n gyson o leiaf bob tri mis, sy'n golygu o bosibl nad yw'r bobl yn cael y gefnogaeth gywir. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y gwasanaeth. Gwnaethom siarad â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a ddywedodd wrthym y gallant wneud eu penderfyniadau eu hunain am sut i dreulio bob dydd. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu eu hanghenion, gan gynnwys cymorth i fynychu apwyntiadau meddygol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r cymorth maent yn ei gael a gwnaethant ddweud wrthym “[/] *feel secure*” ac “[/] *am*] *very happy here*”. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth bod y staff gofal yn dda iawn am roi gwybod iddynt am newidiadau. Gwelsom ryngweithio cynnes a chyfeillgar rhwng y staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, ac yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i ddiogelu'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae systemau ar waith i gofnodi a rhoi gwybod am bryderon diogelu i'r awdurdodau perthnasol. Mae'r staff yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd atynt os bydd ganddynt bryder. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ganddynt y gweithdrefnau perthnasol diweddaraf.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n eu hyrwyddo i gyflawni eu canlyniadau personol. Adeg yr arolygiad, roedd ystafelloedd gwely, en-suites a cheginau cymunedol yn cael eu hadnewyddu. Er bod gwaith adnewyddu yn mynd rhagddo, nid oedd yn amharu lawer ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Rhoddwyd trefniadau eraill ar waith i sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cyfleusterau priodol. Mae'r adeilad yn lân ac yn daclus. Mae'r ystafelloedd sydd wedi cael eu hadnewyddu eisoes yn fodern ac yn gartrefol. Mae sawl ardal gymunedol sy'n darparu digon o le i'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd gwely ac ar gyfleusterau'r cartref. Caiff y bobl eu cefnogi i feithrin a chynnal sgiliau coginio wrth ddefnyddio'r ceginau cymunedol. Mae'r tir yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau cymryd rhan yn y gwaith o gynnal a chadw'r ardd yn rheolaidd. Mae digon o seddi yn yr awyr agored i'r bobl dreulio amser yn yr awyr agored.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau effeithiol ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Ers yr arolygiad diwethaf, mae darparwr y gwasanaeth wedi gosod cyfyngwyr ffenestri ar y llawr cyntaf er mwyn lleihau'r risg i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae systemau ar waith i fonitro glendid y safle a chaiff cyfarpar glanhau ei storio'n ddiogel pan na chaiff ei ddefnyddio. Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i'r staff gofal pan fo'i angen. Mae PPE ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r cartref. Mae'r gwiriadau iechyd a diogelwch, gan gynnwys diogelwch tân, legionella, diogelwch trydanol a diogelwch nwy, yn gyfredol. Caiff y Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng eu hadolygu'n rheolaidd ac maent y nodi sut i gefnogi'r bobl mewn argyfwng yn glir.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae'r rhain yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth gyson dda i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau ei ymweliadau rheoleiddio bob tri mis. Ar ôl pob ymweliad caiff adroddiad ei greu sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol. Yn ystod ei ymweliadau mae'r Unigolyn Cyfrifol yn archwilio'r safle, yn adolygu'r ddogfennaeth berthnasol ac yn siarad â'r staff a'r bobl. Gofynnir i'r bobl fynegi eu barn, wyneb yn wyneb a thrwy holiaduron. Caiff yr adroddiadau ar ansawdd y gofal eu cwblhau bob chwe mis ac maent yn adlewyrchu'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a sut y gellir ei wella. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd ac y cânt eu haddasu pan fo angen.

Mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwyllo'r trefniadau ariannol yn dda. Mae buddsoddiad parhaus yn yr adeilad ac mae systemau ar waith i sicrhau y caiff y gwaith a nodwyd eu cwblhau mewn modd amserol. Gall y bobl gael gafael ar gyfarpar arbenigol, megis lifftiau i'r bath os bydd angen. Gwelsom fod digon o fwyd, PPE a chyfarpar glanhau ar gael.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith i roi cymorth i reoli eu harian. Mae cofnodion arian personol yn adlewyrchu gwariant yr unigolyn yn gywir. Mae polisi priodol ar gyfer cefnogi'r bobl i reoli eu harian. Mae gan y bobl sydd angen cymorth arnynt â'u cyllid gynllun personol ar waith sy'n nodi'r ffordd orau o'u cefnogi yn glir.

Ar y cyfan, caiff y bobl eu cefnogi gan staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau priodol. Gwnaethom adolygu lefelau staffio a gweld eu bod yn ddigonol ac yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Cynhelir gwiriadau recriwtio diogel priodol cyn i'r staff ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cael hyfforddiant rheolaidd i sicrhau eu bod yn gymwys yn eu rolau, gan gynnwys hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion unigol y bobl. Mae cofnodion goruchwyllo yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff yn cael eu goruchwyllo o leiaf bob tri mis ac yn cynnig y cyfle i'r staff adlewyrchu ar eu hymarfer ac adolygu unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Roedd yr adborth yn cynnwys "*it's just a good place to work, we all work well together*" a "*it's a happy environment*". Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal. Mae'r cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn dangos bod y staff yn cael y cyfle i godi materion a gwneud awgrymiadau.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.



## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
16	Nid yw darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cynlluniau personol eu hadolygu o leiaf bob tri mis a phan fo newidiadau.	Newydd

## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 22/09/2023**